# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 29 Mehefin 2016

Amser y cyfarfod: 13.30

## 10(v3)

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

(0 munud)

Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau.

## 3 Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv)

(60 munud)

**NDM6026**

**David Melding (Canol De Cymru)**

**Julie Morgan (Gogledd Caerdydd)**

**Lee Waters (Llanelli)**

**Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)**

**Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn credu y dylai Llywodraeth Cymru archwilio ffyrdd o gryfhau dulliau gweithio rhwng adrannau i wella canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

Cefnogir gan:
Lynne Neagle (Torfaen)
Nick Ramsay (Mynwy)
Suzy Davies (Gorllewin De Cymru)
Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)
Mark Isherwood (Gogledd Cymru)
Janet Finch-Saunders (Aberconwy)

## 4 Dadl Plaid Cymru

(30 munud)

**NDM6052 Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn credu y dylai Bil Cymru wneud darpariaeth i alluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gyflwyno pleidlais sengl drosglwyddadwy ar bob lefel, ac eithrio etholiadau i Senedd Ewrop a Thŷ'r Cyffredin, er mwyn sicrhau cynrychiolaeth deg ar gyfer pob safbwynt wleidyddol.

**Cyflwynwyd y Gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu popeth ar ôl "Cynulliad Cenedlaethol Cymru i" ac yn ei le rhoi "benderfynu ar drefniadau etholiadol sydd ar gyfer Cymru yn unig yn y dyfodol."

## 5 Dadl Plaid Cymru

(30 munud)

**NDM6053** [Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)]

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn credu y dylai:

(a) egwyddorion llywodraeth agored gael eu cynnal ym mhob maes cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru;

(b) y Cod Gweinidogol gael ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a chael ei gymeradwyo ganddo; ac

(c) dyfarnwr annibynnol gael ei benodi i adrodd yn gyhoeddus ar unrhyw achosion o dorri'r Cod.

'Cod Gweinidogol Llywodraeth Cymru - Mai 2016'

**Cyflwynwyd y Gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 -** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Dileu is-bwyntiau (b) ac (c) a rhoi pwynt newydd yn eu lle:

Yn nodi ymrwymiad gan Brif Weinidog Cymru i ymchwilio i ffyrdd o gryfhau Cod y Gweinidogion a'r modd y mae'n gweithredu.

**Gwelliant 2 -** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y byddai bod yn agored a thryloyw yn y broses gwneud penderfyniadau yn cael ei gwella drwy sicrhau bod penodiadau allweddol, gan gynnwys y

Comisiynydd Plant, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, y Comisiynydd Pobl Hŷn a Chomisiynydd y Cymraeg, yn cael eu gwneud gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn hytrach na Llywodraeth Cymru.

**Gwelliant 3 -** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymateb yn ffurfiol i'r pryderon a godwyd ym maniffesto plaid Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg bod Gweinidogion Cymru wedi gallu torri'r Cod Gweinidogol heb gosb.

## 6 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

(60 munud)

**NDM6050** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod y rhan y mae llygredd aer yn ei chwarae yng nghanlyniadau iechyd cymunedau ledled Cymru.

2. Yn nodi bod Sefydliad Iechyd y Byd wedi canfod bod llygredd gronynnol wedi codi wyth y cant yn fyd-eang yn y pum mlynedd diwethaf, gydag arbenigwyr yn y DU yn credu bod tua 29,000 o farwolaethau yn gysylltiedig â llygredd aer.

3. Yn mynegi pryder ynghylch lefel y llygredd aer yng Nghymru, gan nodi mai yng Nghrymlyn, yng Nghaerffili, y mae'r lefelau uchaf o nitrogen deuocsid wedi'u cofnodi y tu allan i Lundain, a bod tystiolaeth a ddarparwyd mewn ymateb i ymgynghoriad gan GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru yn 2015 wedi canfod cysylltiad uniongyrchol rhwng llygredd aer a chynnydd mewn achosion o glefyd anadlol.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu strategaeth allyriadau isel effeithiol, mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid, i leihau allyriadau llygryddion aer.

'World Health Organisation Global Urban Ambient Air Pollution Database' [Saesneg yn unig]

'Public Health Wales NHS Trust Response to Consultation on 'How do you measure a nation's progress', proposals for the national indicators to measure whether Wales is achieving the seven well-being goals in the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015' [Saesneg yn unig]

**Cyflwynwyd y Gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Cynnwys fel pwynt 4 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:

Yn condemnio arferion rhai gwneuthurwyr ceir o leihau allyriadau gronynnau o danwydd diesel yn artiffisial a chamarwain defnyddwyr.

**Gwelliant 2 - Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am lwybrau beicio a cherdded diogel i alluogi pobl i wella eu hiechyd ac amgylchedd drwy deithio llesol.

## 7 Cyfnod pleidleisio

## Datganiad y Llywydd: Ethol cadeiryddion pwyllgorau

## 8 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM6051** Rhianon Passmore (Islwyn)

Ysgolion yr 21ain Ganrif: Mwy na rhaglen adeiladu.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 5 Gorffennaf 2016

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 22 Mehefin, 2016 i'w hateb ar 29 Mehefin 2016

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol

**1.** Hannah Blythyn (Delyn): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau i ddiddymu agweddau ar Ddeddf Undebau Llafur 2016? OAQ(5)0009(FLG)

**2.** Hefin David (Caerffili): Beth yw asesiad Llywodraeth Cymru o'r effaith a gaiff trefniadau pensiwn gwladol trosiannol Llywodraeth y DU ar fenywod a anwyd ar 6 Ebrill 1951, neu ar ôl hynny? OAQ(5)0011(FLG)

**3.** Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ei flaenoriaethau ar gyfer hybu cydraddoldeb yng Nghymru? OAQ(5)0014(FLG)

**4.** Eluned Morgan (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Pa ddefnydd y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o fenthyciadau Banc Buddsoddi Ewrop? OAQ(5)0004(FLG)

**5.** Suzy Davies (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu gwasanaethau cyhoeddus drwy lywodraeth leol? OAQ(5)0003(FLG)

**6.** Mike Hedges (Dwyrain Abertawe): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y defnydd o Wybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr (SQuID) gan awdurdodau lleol ar gyfer prynu? OAQ(5)0001(FLG)

**7.** Julie Morgan (Gogledd Caerdydd): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd o ran gweithredu'r Fargen Ddinesig? OAQ(5)0015(FLG)

**8.** Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fanteision Bargen Ddinesig Caerdydd y tu allan i Gaerdydd? OAQ(5)0005(FLG)

**9.** Sian Gwenllian (Arfon): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynglŷn â'r amserlen ar gyfer diwygio awdurdodau lleol yng Nghymru? OAQ(5)0017(FLG)**W**

**10.** Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr amserlen ar gyfer y setliad llywodraeth leol ar gyfer 2017/18? OAQ(5)0010(FLG)

**11.** Neil McEvoy (Canol De Cymru): Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â Chyngor Caerdydd ynghylch Deddf Llesiant Llywodraethau'r Dyfodol (Cymru) 2015? OAQ(5)0013(FLG)

**12.** Eluned Morgan (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y dyraniad cyllideb cyffredinol i'r portffolio Economi a Seilwaith? OAQ(5)0006(FLG)

**13.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fuddsoddi mewn seilwaith yn Sir Benfro? OAQ(5)0002(FLG)

**14.** Jeremy Miles (Castell-nedd): A wnaiff y Gweinidog amlinellu manteision Bargen Ddinesig Bae Abertawe i Gastell-nedd? OAQ(5)0012(FLG)

**15.** Hannah Blythyn (Delyn): A wnaiff y Gweinidog ystyried diwygio ariannu llywodraeth leol? OAQ(5)0008(FLG)

## Gofyn i Gomisiwn y Cynulliad

Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau.